Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom **ar 20 Tachwedd 2023** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Cyng Medwyn Hughes (Cadeirydd); Ei Theilyngdod y Maer, y Cyng. Elin Walker Jones (gadawodd am 8.10 pm); Cyng. Gareth Parry, Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada (ar-lein), Cyng. Huw Wyn Jones (gadawodd am 7.45 pm), Cyng John Wyn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. L. Toth (cyrhaeddodd 7.15 pm), Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), Sioned Jones (Cyfieithydd).

**78/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Meic Pattison, Cyng Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell.

**79/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**80/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim

**81/23 TRAFOD ARDAL Y PIER**
Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y cyfarfod hwn wedi'i drefnu i drafod dyfodol ased mwyaf y Cyngor.

**i) Rheoli’r Pier**

Trafodwyd rheolaeth y Pier yn y dyfodol ynghyd â’r ardal gyfagos yn fanwl. Archwiliwyd opsiynau amrywiol, gan gynnwys cynnal y trefniadau presennol, sefydlu menter gymdeithasol i reoli ardal y Pier, gyda neu heb gysylltiad Cynghorwyr neu geisio dod o hyd i berchennog preifat. Trafodwyd manteision posibl pob opsiwn a thynnwyd sylw at heriau posibl.

**Penderfynwyd:**

a) na ellid parhau â'r status quo am gyfnod amhenodol.

b) y dylid ymchwilio ymhellach i opsiynau eraill ar gyfer rheoli'r Pier a'r ardal gyfagos.

c) bod adroddiad yn cael ei baratoi yn manylu ar hyfywedd ariannol pob opsiwn a nodwyd yng ngweithred b).

**ii) Tŷ’r Pierfeistr**

Mae hen dŷ’r Pierfeistr wedi bod yn wag ers sawl mis tra bod gwaith tanategu a mân waith arall yn cael eu gwneud. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach ac mae’r tŷ ar gael i rywun fyw ynddo. Unwaith eto, archwiliwyd nifer o bosibiliadau gan y Pwyllgor gan gynnwys gosodiadau tymor byr neu hir, defnydd fel swyddfa dros dro, ei ddefnyddio fel canolfan wybodaeth neu arddangos neu werthu'r eiddo.

Yn dilyn trafodaeth lawn ac agored gan y Cyngor

**Penderfynwyd:**

a) Peidio ag ystyried gwerthu'r eiddo gan ei fod yn ased gwerthfawr i'r Cyngor.
b) Cysylltu ag asiantau gosod lleol a chael asesiadau o'r incwm a'r gwariant posibl o osod yr eiddo ar osodiadau tymor byr a thymor hir.
c) Paratoi amcangyfrif o gost dodrefnu'r eiddo i'r safon ofynnol i'w gynnig i'w osod ar sail tymor byr.
d) Gwneud cais am newid defnydd ar yr eiddo o ddefnydd domestig i ddefnydd swyddfa cyn gynted â phosibl.
e) Archwilio ymarferoldeb defnyddio'r eiddo fel canolfan arddangos dros fisoedd y gaeaf ac fel llety tymor byr dros fisoedd yr haf.

**iii) Dyfodol y Gweithdy**

Defnyddir y gweithdy presennol yn bennaf fel lleoliad storio ac fel canolfan ar gyfer dau weithiwr cynnal a chadw'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r ardal o amgylch y gweithdy wedi cael ei defnyddio i leoli unedau storio, ffreutur dros dro a swyddfa dros dro ar gyfer gweithwyr sy'n ymwneud â gwaith adnewyddu'r Pier. Mae iard dros dro gaeedig hefyd sy'n dal cyflenwadau. Trafododd y Pwyllgor a oedd dal i fod angen y cyfleusterau hyn, gwella delwedd yr ardal o amgylch y gweithdy, y posibilrwydd o ryddhau lleoedd parcio a'r angen am gyfleusterau yn y dyfodol pan fydd y cyfnod adnewyddu nesaf yn dechrau.

Trafodwyd hefyd uchelgais hirdymor y Cyngor i adnewyddu ardal gyfan y Pier, ynghyd â'r goblygiadau posibl i'r ardal pe bai rheolaeth ardal y Pier yn cael ei throsglwyddo i 3ydd parti.

**Penderfynwyd:**

a) Cael gwared ar y swyddfa dros dro a'r ffreutur, cyn gynted â phosibl.
b) Adleoli to'r wylfa, sydd wedi'i lleoli yn y cwrt caeedig
c) Ym mis Ionawr, gwerthuso'r offer yn y gweithdy a chael gwared ar unrhyw rai a ystyrir yn ddiangen.
d) Symud cynnwys y cynhwysydd storio i'r gweithdy
e) Defnyddio Tŷ'r Pierfeistr fel swyddfa dros dro, os oes angen.
f) Dechrau archwilio lleoliadau eraill ar gyfer gweithdy'r Cyngor, gyda'r bwriad o'i adleoli mewn pryd ar gyfer datblygu'r ardal naill ai gan y Cyngor neu sefydliad 3ydd parti.

**iv) Toiledau Cyhoeddus**

ER GWYBODAETH: Adroddwyd i'r Pwyllgor fod trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo perchnogaeth toiledau cyhoeddus Ffordd Garth, naill ai fel rhydd-ddaliad neu ar brydles tymor hir, yn mynd rhagddynt yn dda. Roedd y cysyniadau bellach wedi eu cymeradwyo gan yr adran berthnasol o Wynedd a'r mater wedi ei drosglwyddo i adran gyfreithiol Gwynedd.

**v) Gerddi'r Garth**

ER GWYBODAETH: Fel gydag iv) uchod, mae'r trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r posibilrwydd o drosglwyddo perchnogaeth ar yr un cam. Mae Gwynedd wedi cadarnhau na fyddai'n gwrthwynebu i Gyngor y Ddinas adnewyddu naill ai'r toiledau, y gerddi neu'r ddau.

Cadarnhawyd hefyd y byddai unrhyw waith adnewyddu ar y Garth yn cynnwys man chwarae.

**vi) Delwedd i gynnwys biniau, wyneb maes parcio, ciosgau, peintio, gwaredu gwastraff.**

Trafodwyd yr eitem hon yn fyr. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amser, ystyriwyd ei bod yn ddoeth gohirio unrhyw benderfyniad tan y cyfarfod nesaf, y cynigiwyd ei gynnal tua diwedd Ionawr 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 p.m**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR